



AWDURDOD TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

ARCHWILIO CYFRIFON 2019/20

Hysbysiad archwilio lle mae'r Swyddog Cyllid Cyfrifol wedi ardystio'r cyfrifon ond nid yw'r archwiliad wedi'i gwblhau felly ni all y corff a archwiliwyd gyhoeddi'r cyfrifon archwiliedig

Mae Rheoliad 10(1) yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol bod Swyddog Cyllid Cyfrifol Awdurdod Tan ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn llofnodi'r datganiad cyfrifon ac yn rhoi dyddiad arno, ac yn ardystio'i fod yn cyfleu darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol y corff ar ddiwedd y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi ac o incwm a gwariant y corff hwnnw am y flwyddyn honno. Yn ôl y Rheoliadau roedd yn ofynnol cwblhau hyn erbyn 31 Mai 2020. Fe wnaeth y Swyddog Cyllid Cyfrifol lofnodi ac ardystio'r cyfrifon ar 29 Mai 2020.

Mae Rheoliad 10(2) yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol, ar ôl yr ardystiad gan y Swyddog Cyllid Cyfrifol y cyfeirir ato uchod, bod, Awdurdod Tan ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cymeradwyo ac yn cyhoeddi'r datganiad cyfrifon archwiliedig. Yn ôl y Rheoliadau roedd yn ofynnol cwblhau hyn erbyn 31 Gorffennaf 2020.

O ganlyniad i'r achos o COVID-19, mae'r broses o hawl aelodau'r cyhoedd i arolygu'r datganiad cyfrifon a gofyn cwestiynau i'r archwilydd wedi'i ohirio ac o ganlyniad nid yw'r archwiliad o ddatganiad cyfrifon 2019-20 wedi'i gwblhau eto ac nid oes barn archwilio wedi cael ei darparu. Y datganiad cyfrifon a gyhoeddir yw'r datganiad cyfrifon anarchwiliedig.

E-bost: finance@mawwfire.gov.uk

Ffôn: 01267 226870

Post: Pencadlys y Gwasanaeth Tân, Caerfyrddin, SA31 1SP

Dyddiad: 14 Gorffennaf 2020